Gweiddi

# Tasg 3

(Heriol, sbardun 3)

1. Sylwch ar y gair **goryrru**. Mae **gor-** yn achosi treiglad meddal, felly:

   **gor + gyrru > goryrru**

   Llenwch y tabl, gan gofio treiglo'n feddal os oes angen. Mae un enghraifft wedi'i rhoi i chi.

| **Ystyr** | **Gair gyda'r rhagddodiad 'gor-'** |
|---|---|
| 1. Bwyta gormod | gorfwyta |
| 2. Llenwi gormod | |
| 3. Rhy aeddfed | |
| 4. Pwysleisio gormod | |
| 5. Rhy frysiog | |
| 6. Llifo dros ymyl rhywbeth | |
| 7. Canmol gormod | |
| 8. Rhy barod | |
| 9. Talu gormod | |
| 10. Mynd yn rhy boeth | |
| 11. Gormod o boblogi | |

Meddyliwch am frawddegau synhwyrol lle gallech ddefnyddio'r geiriau 'gor-' hyn.

2. **Enwau lluosog sy'n gorffen gyda <u>âu</u>**

   Mae **–au** yn dangos bod enw'n lluosog – e.e. cae, cae**au**.

   Os oes **–a** ar ddiwedd yr enw'n barod, mae'r ddwy **a** yn dod at ei gilydd, ac rydyn ni'n dangos hyn drwy roi to bach/acen grom ar yr **a** - **-âu**
   Mae'r gair unigol **camera** + **-au** **camerâu**

   Felly, beth yw lluosog y geiriau hyn?

   1. sinema
   2. drama
   3. bwa
   4. berfa
   5. fformiwla
   6. pla
   7. thema

   Sylwch hefyd mai lluosog **ogof** yw **ogofâu** (i ddangos mai ar ddiwedd yr enw y mae'r pwyslais – dydyn ni ddim yn dweud *ogófau*)

3. **Defnyddio'r eirfa**

   Defnyddiwch o leiaf bum eitem o eirfa o 1. a 2. mewn brawddegau sy'n dangos eu hystyr.